Gwaith atal llifogydd Abergele (Cam 1)
Gwaith yn dechrau: 18 Ionawr 2021
Gwaith yn dod i ben: 18 Mehefin 2021.

Rydym yn falch i roi gwybod i chi ein bod yn dechrau'r gwaith o wella mesurau atal llifogydd yn Abergele

Beth sy'n digwydd?

Byddwn yn gwneud gwaith ar y nant yng Nghwrs Golff Abergele a Fferm Manorafon i osod:

- cwlfertau newydd
- sgrin brigau (sy'n atal malurion rhag rhwystro'r nant)
- agor ffosydd
- pwll dŵr mawr i ddal dŵr storm

Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys pwmpio a dargyfeirio nentydd dros dro, torri coed, a gwaith tirlunio.

Bydd cerbydau safle yn defnyddio'r ffordd allan o Fferm Manorafon i fynd ar Ffordd Abergele.

Covid-19
Bydd ein staff yn cydymffurfio â chanllawiau COVID 19 cyfredol. Parchwch y rheolau cadw pellter cymdeithasol o 2m a pheidiwch â mynd at y gweithlu.

Cwestiynau?
Cofrestrwch ar ein gwefan gymunedol i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd: **community.alungriffiths.co.uk/eldondrive**

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â:

- Swyddog cyswllt Cyhoeddus Griffiths, Mandy Evans ar mandy.evans@alungriffiths.co.uk neu ffoniwch 0330 041 2185
- Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â thîm cynghori'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau ar affch@conwy.gov.uk neu ffoniwch 01492 575337 i siarad gyda Dyfed Thomas neu Kyle Salt.

Ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra a diolchwn i chi am eich amynedd wrth i ni wneud y gwaith gwella hanfodol hwn.

GRIFFITHS
civil engineering and construction

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL